


# Groundwork North Wales Summer 2011 Newsletter

Welcome to Groundwork's summer 2011 e newsletter. At Groundwork we help people change their own lives for the better, making North Wales, greener and cleaner. We work together with local communities, the public, private and voluntary sectors, delivering projects in North Wales in 3 key areas, **Green Skills**, **Green Spaces and Green Energy**.

**STOP PRESS: We are running an outdoor woodland holiday programme for 8 -13 year olds this Summer at our Environmental Centre at Plas Power, Wrexham, contact us on 01978 757524 to receive a programme.**



## Job Success across North Wales

Groundwork North Wales are celebrating the successful completion of the first stage of their employment programme the Future Job's Fund. They have successfully placed 240 people across Gwynedd and Anglesey and 230 people across Wrexham and Flintshire into jobs for a 6 month period. The scheme created some excellent opportunities with leading local organisations such as The National Trust, Gwynedd County Council, RAF Valley and The Environment Agency. Both Employment teams at the Caernarfon and Wrexham Offices are now running job clubs for local unemployed people, offering training in essential skills such as CV writing, interview techniques and presentation skills.

Can Groundwork work in partnership with your organisation in North West Wales? Please contact the manager of our Caernarfon Office Ieuan Davies on 01286 674803, ieuan.davies@groundwork.org.uk



## Groundwork offering work opportunities to transform Plas Power site

Groundwork is running an Intermediate Labour Market programme at their head office in Tanyfron, Wrexham, based in the listed Plas Power Colliery buildings surrounded by woods, and undulating countryside. The ILM project has given 24 young people the opportunity to be employed for 42 weeks at our Plas Power site, gaining work experience and green skills. They are transforming the site into a nature reserve and enhancing the natural facilities and bio diversity of the site.

If Groundwork can help you to give opportunities to young people, please contact Nia Lederle, Employment Manager on 01978 757524, nia.lederle@groundwork.org.uk



## Groundwork launch wild life and sensory garden at Ty Cegin

Groundwork has worked with the Ty Cegin Community Centre in Bangor to transform their grounds into a wildlife and sensory garden. This project has been made possible thanks to funding from the Marks and Spencer carrier bag scheme. The Community Centre now boasts a green play area with willow tunnels and a story telling circle. There is also a new community garden area, specially planted to attract bees, butterflies and other wildlife. Local community groups, schools and volunteers were all involved in completing the project, which will be launched on June 14th. Please contact us if you want to come along to this event.

If Groundwork can help you transform your local area, please contact Christine Bowyer, Environment Manager on 01978 757524, christine.bowyer@groundwork.org.uk

### Green Spaces

Our Green Spaces Team, help communities to redesign their neglected open spaces.

### Green Skills

Our Green Skills Team run programmes to help individuals, communities and schools to develop green skills and careers.

### Green Energy

Our Green Energy Team helps communities, organisations and individuals to reduce their carbon footprint.

GROUNDWORK NORTH WALES
3 –4 PLAS POWER ROAD
TANYFRON
WREXHAM
LL115SZ

TEL: 01978 757524
FAX: 01978 722402




## E Daflen Newyddion Groundwork Gogledd Cymru – Haf 2011

Croeso i rifyn haf e-daflen newyddion Groundwork. Yn Groundwork, rydym yn helpu pobl i newid eu bywydau eu hunain er gwell, gan wneud Gogledd Cymru'n wyrddach ac yn lanach. Rydym yn cydweithio gyda chymunedau lleol, y cyhoedd a sectorau preifat a gwirfoddol, i gyflawni prosiectau yng Ngogledd Cymru mewn 3 phrif faes, **Sgiliau Gwyrdd**, **Llecynnau Gwyrdd ac Egni Gwyrdd**. **Y NEWYDDION DIWEDDARAF: Eleni rydym yn cynnal rhaglen gwyliau haf awyr agored ar gyfer plant 8 -14 oed mewn coedlan yn ein Canolfan Amgylcheddol ym Mhlas P?er, Wrecsam. Cysylltwch â ni ar 01978 757524 i gael rhaglen**. Mary.hext@groundwork.org.uk

### Llwyddiant i Groundwork Gogledd Cymru



Mae Groundwork Gogledd Cymru yn dathlu cwblhau'n llwyddiannus y cam cyntaf o'u rhaglen gyflogaeth Cronfa Swyddi'r Dyfodol. Maent wedi llwyddo i leoli 240 o bobl am gyfnod o 6 mis ar draws Gwynedd ac Ynys Môn a 230 o bobl ar draws Wrecsam a Sir y Fflint. Roedd y cynllun yn creu rhai cyfleoedd rhagorol gyda sefydliadau lleol blaengar megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam a Asiantaeth Yr Amgylchedd. Mae'r ddau dîm cyflogaeth yn Swyddfa Caernarfon a Wrecsam yn awr yn cynnal clybiau gwaith ar gyfer pobl ddi-waith lleol, gan gynnig hyfforddiant mewn sgiliau hanfodol fel ysgrifennu CV, technegau cyfweliad a sgiliau ar gyfer cyflwyniadau.

A all Groundwork weithio mewn partneriaeth gyda'ch sefydliad chi yng Ngogledd Orllewin Cymru? Gallwch gysylltu â rheolwr Swyddfa Caernarfon, Ieuan Davies, ar 01286 674803, ieuan.davies@groundwork.org.uk

### Groundwork yn cynnig cyfleoedd gwaith i drawsnewid safle Plas P?er



Mae Groundwork yn rhedeg rhaglen Ganolradd Marchnad Lafur yn ei bencadlys yn Nhan-y-fron, Wrecsam. Mae Groundwork wedi'i leoli yn adeilad rhestredig Gwaith Glo Plas P?er ac rydym yn ddigon ffodus i gael ein hamgylchynu gan 9 hectar o dir pori sy'n gyfoethog mewn rhywogaethau a choedlan. Mae prosiect ILM wedi rhoi cyfle i 24 o bobl ifanc gael eu cyflogi am 42 wythnos yn ein safle Plas P?er. Maen nhw wedi ennill profiad gwaith gwerthfawr a sgiliau gwyrdd tra hefyd yn gwella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth a gwella ei gyfleusterau naturiol.

Os gall Groundwork eich helpu i roi cyfleoedd i bobl ifanc, gallwch gysylltu â Nia Lederle, Rheolwr Cyflogaeth ar 01978 757524, nia.lederle@groundwork.org.uk

### Groundwork yn Lansio gardd bywyd gwyllt a synhwyraidd yn Nh? Cegin



Mae Groundwork wedi gweithio gyda Chanolfan Gymuned T? Cegin ym Mangor i drawsnewid ei thir yn ardd bywyd gwyllt a synhwyraidd. Llwyddwyd i gynnal y prosiect hwn diolch i arian gan gynllun bag cario Marks and Spencer. Mae'r Ganolfan yn awr yn falch o'i dir chwarae gwyrdd gyda thwneli helygen a chylch dweud stori. Hefyd, mae gardd gymuned newydd a blannwyd yn arbennig i ddenu gwenyn, ieir bach yr haf a bywyd gwyllt arall. Roedd grwpiau cymuned, ysgolion a gwirfoddolwyr yn ymwneud â chwblhau'r prosiect a bydd yn cael ei lansio ar 14 Mehefin. Gallwch gysylltu â ni os ydych am ddod i'r digwyddiad hwn.

Os gall Groundwork eich helpu i drawsnewid eich ardal leol, gallwch gysylltu â Christine Bowyer, Rheolwr yr Amgylchedd ar 01978 757524, christine.bowyer@groundwork.org.uk

#### Mannau Gwyrdd

Mae ein Tîm Mannau Gwyrdd yn helpu cymunedau i adfer y mannau agored sydd wedi'u hesgeuluso. Mae ein rhaglen addysgol yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf mewn sgiliau gwyrdd.

#### Sgiliau Gwyrdd

Mae ein tîm Sgiliau Gwyrdd yn cynnal rhaglenni i gynorthwyo unigolion a chymunedau i ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd gwyrdd.

#### Egni Gwyrdd

Mae ein Tîm Egni Gwyrdd yn cynorthwyo cymunedau, cyrff ac unigolion i leihau eu hôl troed carbon ac i ddatblygu.

GROUNDWORK GOGLEDD CYMRU
3 – 4 FFORD PLAS POWER
TANYFRON
WRECSAM

Tel 01978 757524
Fax 01978 722402